

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol

Cyflwyniad

Fel Gweinidog mewn gwlad eangfrydig, rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol sy'n edrych ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol ac yn ailddatgan y farn bod yn rhaid inni weithio'n galed i droi Brexit yn gyfle i adfywio hen gysylltiadau yn ogystal â chanfod a datblygu rhai newydd. Hoffwn i Gymru barhau i fod yn Ewropeaidd o ran ei gwerthoedd a'i hunaniaeth ac i weithio'n galed i barhau i gyfathrebu â'n cymdogion Ewropeaidd mewn llawer o ffyrdd, er lles ein gilydd.

Ymatebion manwl i argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn trafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod mynediad ffafriol at y farchnad, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau di-dariff, yn cael ei flaenoriaethu yn y trafodaethau sydd ar ddod ar berthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. - Tudalen 26

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno cynigion credadwy o ran trefniadau tollau'r Deyrnas Unedig â'r UE yn y dyfodol cyn gynted ag y bo modd. - Tudalen 31

Ymateb: Derbyn

Fel nodwyd yn ein cyhoeddiad, "Y Polisi Masnach: materion Cymru", safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod yn rhaid inni barhau i gael mynediad llawn a dirwysr at y Farchnad Sengl, ac rydym eto i'n hargyhoeddi bod aros y tu allan i Undeb Tollau gyda'r UE o fudd inni, o leiaf hyd y gellir ei ragweld. Mae 60% o'r holl nwyddau a allforiwyd o Gymru yn mynd i'r UE. Pe byddai gweithdrefnau tollau ar waith bob tro y byddai eitem yn croesi'r ffin, byddai'r tollau a'r oedi yn ychwanegu'n sylweddol at gost y cynnyrch hwnnw. Gallai hyn wneud cwmnïau Cymru yn anghystadleuol o'u cymharu â'u cystadleuwyr yn Ewrop. Yn ogystal, mae cwmnïau yn yr UE yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod eu cynnyrch terfynol yn bodloni'r maen prawf o fod wedi'i gynhyrchu'n bennaf yn yr UE er mwyn bodloni profion Rheolau Tarddiad sy'n gysylltiedig â Chytundebau Masnach Rydd trydydd gwledydd yr UE. Pe byddai'r Deyrnas Unedig yn dod yn 'drydedd wlad' - o ran ei pherthynas fasnach â'r UE - yna ni fyddai ein cynnyrch yn cael ei ddosbarthu fel 'cynnyrch a wnaed yn yr UE', felly byddai cwmnïau sy'n allforio o'r UE yn llai tebygol o ddefnyddio cydrannau sy'n dod o'r DU. Yn ogystal â hyn, y mater pwysicaf i borthladdoedd Cymru yw symud nwyddau a phobl gan ddefnyddio trefniadau tollau di-dor nad ydynt, fan leiaf, yn fwy beichus na'r drefn o dan yr Undeb Tollau presennol.

Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU am fwy o eglurder ynglŷn â systemau tollau yn y dyfodol, yn ffurfiol drwy gyfrwng y Cydbwyllgor Gweinidogion a thrwy

drafodaethau dwyochrog. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU roi rôl sylweddol i Lywodraeth Cymru ym mhrosesau negodi'r DU am bartneriaeth economaidd gyda'r UE yn y dyfodol. Byddwn yn pwyso'n daer i'r DU fabwysiadu safbwyntiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth economaidd er mwyn cefnogi safle negodi prydlon a chlir i'r DU a fyddai'n arwain at drefniadau tollau effeithlon ac esmwyth rhwng y DU a'r UE.

Goblygiadau Ariannol

Dim mewn perthynas â'r argymhellion manwl eu hunain. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol. Bydd goblygiadau'r trefniadau tollau y cytunwyd arnynt yn y dyfodol yn arwyddocaol.

Argymhelliad 2. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn galw arni i sicrhau bod buddiannau'r diwydiannau ffermio, pysgota a bwyd yn cael eu diogelu yn ystod y broses ymadael. - Tudalen 28*

Ymateb: Derby

Mae ein heconomi wedi'i hintegreiddio'n agos â Marchnad Sengl yr UE ac mae tua dwy ran o dair o allforion adnabyddadwy Cymru yn mynd i wledydd yr UE. Byddai gosod rhwystrau tariff a rhwystrau di-dariff rhwng y DU a'r UE yn niweidiol i fusnesau bwyd-amaeth yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod osgoi sefyllfa o'r fath yn brif flaenoriaeth yn y negodiadau ar ymadael ac ar ddyfodol perthynas y DU â'r UE. Rhaid iddi ystyried hyn yn ofalus mewn trafodaethau â Sefydliad Masnach y Byd ynglŷn â sefydlu ei thariffau ei hun, yn ogystal ag yn y negodiadau ar gytundeb masnach rydd gyda'r UE.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddiogelu'r enw da sydd gan Gymru yn rhyngwladol am safonau lles anifeiliaid, safonau amgylcheddol a safonau bwyd uchel – ni ddylai'r rhain gael eu haberthu trwy ganiatáu mewnforion rhad. Gallai hynny danseilio'r brand Cymreig safonol, sy'n cael ei ailddiffinio ar hyn o bryd, a gallai effeithio hefyd ar ein gallu i negodi bargeinion masnach gyda gwledydd eraill.

Rhaid i Lywodraeth y DU hefyd nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau hawliau gweithio i filfeddygon o'r UE sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd a chefnogi'r gweithlu milfeddygol yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu bodloni anghenion y diwydiant bwyd.

Rydym hefyd yn gofyn i Lywodraeth y DU ei gwneud yn glir i'r diwydiant sut mae'n bwriadu ymdrin ag unrhyw ganlyniadau wahaniaethau rhyngddi a'r UE o ran rheoliadau, a'r mecanweithiau y bydd yn eu rhoi ar waith i olrhain unrhyw wahaniaethau yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3. *I'r perwyl hwnnw, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth ar ddibyniaeth y sectorau hyn ar farchnad yr Undeb Ewropeaidd ac i*

gyflwyno'r canfyddiadau hyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn cryfhau ei galwadau. - Tudalen 28

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn llwyr gydnabod pwysigrwydd marchnad yr UE i'n diwydiannu. Mae gennym dystiolaeth helaeth sy'n tanlinellu dibyniaeth Cymru ar Farchnad Sengl yr UE. Er enghraifft, yn 2017, roedd 77.3% o allforion bwyd a diod Cymru yn mynd i'r UE, ac mae dros 90% o'r allforion cig oen yn mynd i farchnadoedd yr UE.

Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dwyn y teitl 'Implications of Brexit on fishing opportunities in Wales'. Mae'r adroddiad yn dadansoddi perfformiad economaidd fflyd Cymru o dan amrywiol senarios Brexit.

Mae gwaith wedi cychwyn ar edrych ar rwystrau tariff/di-dariff, a fydd yn cryfhau ein mewnbwn i'r broses negodi.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5. *Wrth ymgymryd â gwaith i baratoi ar gyfer senario 'dim bargaen', rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr effaith y gallai trefniadau tollau eraill ei chael ar Gymru, a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd i baratoi ar gyfer y rhain. - Tudalen 31*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel nodwyd yn ein papur polisi "Y Polisi Masnach: materion Cymru", mae canlyniadau difrifol i fusnesau Cymru yn sgil y senario "dim bargaen" a'r newidiadau i drefniadau tollau gan gynnwys tariffiau, cwotâu ar gyfradd tariff, mesurau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, gofynion yn ymwneud â rheolau tarddiad a rhwystrau technegol i fasnach.

Rydym yn cynnal trafodaethau cyson, ar y cyd gyda swyddogion Llywodraeth Ei Mawrhydi, gan gynnwys Cyllid a Thollau EM, a phorthladdoedd a maes awyr Cymru, am dollau a materion eraill yn gysylltiedig â'r ffin. O fewn y fforwm hwn, rydym yn ystyried goblygiadau trefniadau amgen a'r hyn fydd angen ei roi ar waith ar gyfer senarios gwahanol, gan gynnwys seilwaith a systemau ar ffiniau, yn dibynnu ar y telerau ymadael â'r UE. Byddwn yn parhau i weithio ar y trefniadau hyn nes y daw'n glir, drwy'r negodi, yn union pa senario fydd yn berthnasol.

Mae materion yn ymwneud â thollau a ffiniau hefyd yn cael eu hystyried gan Grŵp Gwaith Ymadael â'r UE Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, sy'n cynnwys ystod o gynrychiolwyr busnes a diwydiant, gan gynnwys y sector porthladdoedd.

Yn gyffredinol, fel y trafodwyd yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor 'Sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?' ac fel yr amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ei araith i'r Pwyllgor, mae senario Dim Bargen Iwyr yn sefyllfa eithafol a fyddai'n achosi cymaint o rwyg fel nad yw'n bosibl ei fodelu mewn modd a fyddai'n sail i liniaru mewn ffordd ystyrlon sylfaenol. At hynny, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU fyddai mynd i'r afael â llawer o'r anawsterau a achoswyd (er enghraifft materion macro-economaidd yn ymwneud â chyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid, benthyca gan y Llywodraeth; a rhai logistaidd, megis trefniadau tollau). Er ein bod ni fel Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i liniaru'r effaith yn y meysydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt, byddai'r sefyllfa gyffredinol mor niweidiol i'r graddau na fyddem yn gallu gwneud hynny'n realistig.

Yn ogystal, mae rhai agweddau sy'n wirioneddol hanfodol o safbwynt dyfodol y berthynas rhwng yr UE a'r DU ac rydym yn credu bod rhaid i Lywodraeth y DU a'r UE ddod i gytundeb ar frys er mwyn cynnal elfen o fframwaith sylfaenol i'r hygyrdd economaidd, fel gweithrediadau hedfanaeth, hyd yn oed os nad oes modd cytuno ar bartneriaeth economaidd llawn. Hefyd, byddwn yn parhau i bwysu'n gryf ar Lywodraeth y DU i ganiatáu cyfranogiad mewn rhai rhwydweithiau a rhaglenni sydd wedi'u lleoli yn yr UE sydd o fudd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol arwyddocaol, yn enwedig ERASMUS+; nid ydym yn gweld rheswm da dros beidio mynd ar ôl trefniant penodol o'r fath, hyd yn oed heb bartneriaeth economaidd llawnach. (Gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad 11.)

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio eglurder gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr amserlenni ar gyfer symud at system fewnfudo yn y dyfodol cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi sicrwydd y mae ei angen yn fawr ar fusnesau a chyrrff y sector cyhoeddus ar y materion recriwtio y gallant eu hwynebu yn y dyfodol. - Tudalen 38

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar amserlenni ar gyfer cyhoeddi ei phapur gwyn hir ddisgwyliedig ar Fewnfudo. Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y paratoadau ar gyfer system fewnfudo newydd i roi sicrwydd i fusnesau a'r sector cyhoeddus. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo adroddiad interim wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth y DU, gydag adroddiad terfynol i'w ddisgwyl ym mis Medi. Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Fudo yn ystyried effaith mudo ar y DU a bydd yr adroddiad terfynol yn sail i Fil Mewnfudo arfaethedig Llywodraeth y DU. Cafodd papur polisi Llywodraeth Cymru 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl' a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi 2017 ac a oedd wedi'i seilio ar dystiolaeth o bob rhan o Gymru, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynghori i'w gynorthwyo â'i ymchwil.

Rydym yn cydnabod bod yr ansicrwydd yn cael effaith ar sectorau arbennig, er enghraifft y proffesiwn milfeddygol, felly mae gan Gymru, ynghyd â Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, gynrychiolaeth ar Brosiect Galluogrwydd a Chapasiti Milfeddygol

Llywodraeth y DU. Nod y grŵp yw datblygu gweithlu hyblyg a medrus i ddiwallu anghenion y DU yn y dyfodol agos ac yn yr hirdymor. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n mapio grwpiau rhanddeiliaid presennol i roi ystyriaeth i faterion cynllunio'r gweithlu mewn sectorau bregus eraill. Rydym yn rhagweld bod potensial i'r grwpiau hyn arwain y camau gweithredu i fynd i'r afael â phrinder yn y gweithlu oherwydd Brexit.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 7. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o asiantaethau Ewropeaidd y mae wedi eu nodi fel rhai pwysig i Gymru o ran cyfranogiad parhaus ar ôl Brexit. - Tudalen 43*

Ymateb: Derbyn

Mae Erthygl chwech o Ddrafft y Cytundeb Ymadael yn nodi na fydd y DU yn cadw aelodaeth o unrhyw Asiantaethau Ewropeaidd ar ôl iddi adael yr UE. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r DU yn dymuno cydweithio â nifer o asiantaethau yn y dyfodol. Rydym yn llwyr gefnogi'r egwyddor bod y DU yn parhau i ymwneud â nifer o'r asiantaethau a byddwn yn cyhoeddi rhestr o'r rhai yr ydym yn credu sydd o bwys arbennig i Gymru.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 8. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrrff y GIG, rhanddeiliaid iechyd y cyhoedd a sefydliadau iechyd yng Nghymru i nodi cysylltiadau cyfredol â'r asiantaethau a'r rhwydweithiau hyn i awgrymu dewisiadau posibl o ran sut gallai cydweithio barhau ar ôl Brexit. - Tudalen 45*

Argymhelliad 9. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn parhau i gymryd rhan yng Nghanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop, ac Asiantaeth Feddyginiaethau Ewrop, ar ôl Brexit. - Tudalen 46*

Ymateb: Derbyn

Rydym o blaid y syniad fod y DU yn aros yn rhan o Asiantaeth Feddyginiaethau Ewrop ar ôl Brexit, ond byddai hynny'n golygu perthynas lawer agosach â'r farchnad sengl nag yr ymddengys fod Llywodraeth y DU yn barod i'w hystyried ar hyn o bryd.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos â Chonffederasiwn GIG Cymru i fanylu ar y risgiau allweddol i wasanaethau yng Nghymru oherwydd Brexit. Mae rhaglenni'r UE yn darparu cyfleoedd i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol a busnesau gydweithio er mwyn cyrraedd yr un nod.

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol yn parhau i gyfranogi yn Horizon 2020 a'i rhaglenni olynol. Byddwn hefyd yn gwneud sylwadau penodol i sicrhau mynediad i'r drydedd raglen lechyd ac unrhyw olynnydd.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweld ymchwilwyr ac arloeswyr iechyd a gofal Cymru yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid ar draws Ewrop a thu hwnt, gan adeiladu ar lwyddiannau fel statws Safle Cyfeirio Ewropeaidd pedair seren gan Bartneriaeth Arloesedd Ewrop ar Heneiddio'n Egniol ac Iach. I'r perwyl hwn, rydym yn cryfhau ein cysylltiadau uniongyrchol gyda rhanbarthau eraill yn Ewrop drwy bartneriaethau gyda, er enghraifft, Gwlad y Basg yn Sbaen. Rydym hefyd yn chwarae rhan weithgar mewn nifer o rwydweithiau Ewropeaidd, fel yr Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol a Lleol ar draws Ewrop (EUREGHA). Mae Ecosystem Iechyd Digidol Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar yn aelod o Gynghrair Iechyd Cysylltiedig Ewrop (ECH), sy'n cyfathrebu ag 20 o ecosystemau ar draws Ewrop, yr Unol Daleithiau, Canada a Tsieina gyda'r amcan o rannu arfer da, datblygu perthnasau a gweithio mewn partneriaeth lle ceir buddiannau cyffredin.

Ym meysydd atal clefydau, iechyd cyhoeddus a rheoleiddio technolegau iechyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ar faterion rheoleiddio a chyflenwi meddyginiaethau a dyfeisiau. Er nad yw'r agweddau rheoleiddio wedi eu datganoli, byddwn yn parhau i bwysu am gydweithio agos parhaus rhwng yr UE a'r DU i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad i'r cyffuriau a'r dyfeisiadau newydd diweddaraf a bod busnesau gwyddorau bywyd Cymru yn cael mynediad i farchnadoedd newydd er mwyn arloesi a thyfu. Mae'r MHRA yn bwriadu nodi'r cyffuriau a'r brechlynnau y gallai eu cyflenwadau a'u hargaeledd fod mewn perygl o ganlyniad i ddim bargaen, gan ein galluogi i nodi'n fwy manwl gywir y risgiau i wasanaethau yng Nghymru.

Gallai llai o gydweithio rhyngom â Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop arwain at oedi wrth adrodd am glefydau a'u holrhain, llesteirio ymateb i achosion, lleihau effeithiolrwydd paratoi, cynllunio ac ymateb i bandemig a gallai arwain at fylchau sylweddol mewn deallusrwydd yn ymwneud â chlefydau heintus.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 10. *Os na chytunir ar Horizon 2020 nac unrhyw raglen olynol rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r UE, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd y gallai ddarparu cymorth parhaus i sefydliadau Cymru gydweithio â chymheiriaid Ewropeaidd ar ôl Brexit.* - Tudalen 48

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae nifer o raglenni'r UE wedi ysgogi buddsoddiad sylweddol yng Nghymru ac rydym yn credu'n gryf y dylai Cymru barhau i elwa o gael mynediad iddynt o'r tu allan i'r UE. Mae'r cydweithio trawsffiniol parhaus yn nhermau ymchwil, datblygu ac arloesedd, (yn bennaf drwy'r rhaglen Horizon 2020 ar hyn o bryd), yn arbennig o

bwysig a dylai barhau ar ôl i'r DU adael yr UE. Pe na bai Llywodraeth y DU yn cytuno i gymryd rhan yn y Fframwaith Rhaglenni Ymchwil a Datblygu, mae'n annhebygol y gallai Cymru wneud hynny ei hunan; mae'n hanfodol felly ein bod yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i roi blaenoriaeth i barhau i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn fel rhan o'r negodiadau â 27 yr UE.

Bydd ein ffordd o fuddsoddi'n rhanbarthol o 2020 ymlaen yn adeiladu ar y camau a osodwyd yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru ac yn canolbwyntio ar roi sylw i'r prif heriau strwythurol yn economi Cymru drwy ystod o ffyrdd gan gynnwys hyrwyddo arloesedd i gefnogi twf ledled Cymru.

Yn dilyn Brexit, mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y cyfle i leihau cymhlethdodau gweinyddol ac i symleiddio rheolau, ein bod yn mabwysiadu dull mwy cyfrannol yn seiliedig ar risg o annog arloesedd a mwy o fuddsoddiad o'r sector breifat, gan gynnwys goddefiant ar gyfer methiant wrth dreialu dulliau gweithredu cwbl newydd a allai arwain at enillion sylweddol. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal manteision fframwaith clir yn seiliedig ar reolau, megis y ffocws ar ganlyniadau a ddatblygwyd dros gyfnodau cyllido diweddar yr UE, a lledaenu'r manteision hynny ar draws popeth a wnawn, nid dim ond drwy un ffordd gyllido.

Mae Cymru yn draddodiadol yn wlad eangfrydig ac mae'n rhaid inni adeiladu ar hyn; bydd cydweithio trawsffiniol y tu hwnt i Ewrop yn cryfhau ymdrech economaidd byd-eang Cymru. Yn hyn o beth, rydym yn bwriadu datblygu perthnasau a rhwydweithiau newydd rhyngwladol fel rhan o'n datblygiad economaidd yn y dyfodol. Er bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ein cysylltiadau presennol mae diffyg unrhyw gyswllt amlwg i ranbarthau unigol o fewn Aelod-wladwriaethau gymryd rhan yn rhaglenni'r UE yn golygu y bydd angen datrysiadau arloesol. Rydym yn gweld manteision cryf o sicrhau mynediad i Gymru os nad y DU gyfan.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

***Argymhelliad 11.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r potensial ar gyfer rhaglen symudedd myfyrwyr rhyngwladol newydd ar ôl Brexit, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis. - Tudalen 52*

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Cyfranogi yn Erasmus+ yn y Dyfodol

Mae'r cytundeb a wnaed gyda'r UE ym [mis Rhagfyr 2017 / Mawrth 2018] yn golygu - yn amodol ar y cafeat "does dim cytundeb nes bod cytundeb ar bob dim" - bod y DU yn parhau i gymryd rhan yn Erasmus+ tan ddiwedd y rhaglen bresennol hon ym mis Rhagfyr 2020. Ar hyn o bryd mae'r UE wrthi'n ystyried ei hagwedd tuag at y rhaglen Erasmus+ nesaf o fis Ionawr 2021. Mae swyddogion yn cynnal trafodaethau cyson ar Erasmus+ gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae disgwyl i ddyfodol cyfranogiad y DU yn Erasmus+ o fis Ionawr 2021 ffurfio rhan o drafodaethau Llywodraeth y DU gyda'r UE am ddyfodol ei pherthynas â'r UE. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw ein bod yn parhau i ddymuno bod y DU yn cymryd rhan yn Erasmus+ ar ôl i'r DU adael yr UE. Os yw Llywodraeth

y DU yn anfodlon mynd ar drywydd yr opsiwn hwn, mae'n annhebygol y gallai Cymru wneud hynny ei hun; byddwn felly'n parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i roi blaenoriaeth yn y negodiadau i barhau i gyfranogi yn y rhaglen.

Symudedd Allanol gan Fyfyrrwyr

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi codi'r cwestiwn gyda swyddogion Llywodraeth y DU am ddull ehangach y DU o ymdrin â symudedd myfyrrwyr yn yr hirdymor. Ar hyn o bryd mae prifysgolion y DU wrthi'n sefydlu gweithgor i ddatblygu argymhellion yn ymwneud â symudedd allanol gan fyfyrrwyr y DU, ac mae swyddogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y DU yn bresennol yn ei gyfarfodydd.

Ein hamcan yw sicrhau bod dull gweithredu'r DU yn gydnaws â blaenoriaethau a phryderon Cymru.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau pan fydd datblygiadau sylweddol i'w hadrodd.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

***Argymhelliad 12.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mapio'r holl rwydweithiau yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n bodoli'n barod, ar draws pob sector, lle mae sefydliadau Cymru yn chwarae rhan. Dylai canlyniadau'r ymarfer mapio hwn gael eu cyhoeddi erbyn mis Mehefin 2018. - Tudalen 60*

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi diweddarau'r ymarfer mapio cychwynnol o rwydweithiau'r UE a wnaed yn 2016, ochr yn ochr â diweddariad i grynoded o gronfeydd yr UE a reolir yn ganolog sydd ar gael i sefydliadau Cymru. Rhoddwyd y rhain i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2018 a chânt eu cyhoeddi'n fuan. Byddwn yn adolygu'r rhain yn barhaus. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw ddiweddariadau pellach cyn gynted â phosibl, ac yn eu dosbarthu i randdeiliaid i annog sefydliadau Cymru i nodi unrhyw fylchau.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

***Argymhelliad 13.** Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ar bwysigrwydd y rhwydweithiau gwahanol hyn, eu buddion i Gymru a pha rwydweithiau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad ar ôl Brexit. Dylid cwblhau'r ymgynghoriad erbyn hydref 2018. - Tudalen 60*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddwn yn holi barn rhanddeiliaid am rwydweithiau sy'n flaenoriaeth ar gyfer cyfranogiad posibl yn y dyfodol o blith y rhai hynny y mae Llywodraeth Cymru yn cyfranogi ynddynt ac yn eu cefnogi'n uniongyrchol ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae nifer o rwydweithiau'r UE nad ydynt yn cynnwys Llywodraeth Cymru ac maen nhw'n gydweithrediadau uniongyrchol rhwng sefydliadau Cymru a'r rhwydweithiau UE hynny. Bydd y rhain yn cael eu blaenoriaethu yn y modd mwyaf addas gan y rhai sy'n cymryd rhan. Gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan wrth helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae'r sefydliadau hyn yn eu hwynebu o ran parhau i gyfranogi yn rhwydweithiau'r UE. Byddwn yn holi barn y sefydliadau hyn ynglŷn â'r rhwystrau a sut y gellir eu goresgyn.

Bydd gan nifer o rwydweithiau gysylltiad uniongyrchol â rhaglenni'r UE yr ydym yn dymuno parhau i gyfranogi ynddyn nhw fel rhan o'n perthynas newydd â'r UE. Byddwn felly yn diweddarau ein dadansoddiad o ystod rhaglenni'r UE sydd ar gael ar hyn o bryd i Gymru, er mwyn pennu'r blaenoriaethau i Gymru o ran y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Caiff hyn ei lywio gan yr ymatebion i'n papur "Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit". Y blaenoriaethau a glustnodwyd yn barod i Gymru yn "Diogelu Dyfodol Cymru" yw rhaglenni i olynu Horizon 2020, Erasmus+, Ewrop Greadigol a'r gyfres o raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (yn cynnwys Iwerddon-Cymru). Mae ein cyfranogiad mewn rhwydweithiau allweddol yr UE yn ategu ein cysylltiad â llawer o'r rhaglenni hyn, ac oherwydd hyn mae'r darnau hyn o waith yn gydgyssylltiedig.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, amlinellu cynlluniau ar gyfer buddsoddi yng nghyfranogiad Cymru yn y rhwydweithiau hyn, ac ystyried y cyfleoedd a'r goblygiadau cyllido i gymdeithas ddinesig Cymru er mwyn parhau i gydweithio â phartneriaid mewn rhwydweithiau allweddol. - Tudalen 60

Derbyn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cronfa Bontio'r UE a llai yn y tymor byr gefnogi cyfranogiad cymdeithas sifil Cymru mewn rhwydweithiau Ewropeaidd. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ymchwilio i ateb mwy hirdymor i gefnogi ymgysylltu priodol â'r rhwydweithiau hyn yn y dyfodol, ar sail cost a budd, ar ôl y cyfnod pontio.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn nodi'r cyflwr terfynol y mae'n ei ragweld o ran perthynas Cymru â rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn y dyfodol, a'i chyfranogiad ynddynt (yn enwedig y rhai sy'n cynnwys Iwerddon), ar ôl Brexit. - Tudalen 62

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym ni yn Llywodraeth Cymru wedi'i nodi'n glir ein bod yn dymuno adeiladu ar y perthnasau gyda rhanbarthau'r UE drwy barhau i gyfranogi yn y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd ar ôl 2020. Rydym wedi bod yn glir yn ein papurau polisi ac mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ein bod eisiau i Raglen Iwerddon-Cymru barhau yn yr hirdymor.

Rydym yn rhagweld gallu cael mynediad i raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yn y dyfodol ar ryw ffurf, fodd bynnag bydd yr ystod o raglenni sy'n agored inni a lefel y cyfranogiad a fydd ar gael yn amodol ar y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Iwerddon a'r UE. Byddwn yn parhau i ddadlau'r achos dros gyfranogiad parhaus yn y gyfres lawn o raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yr ydym yn gymwys i gymryd rhan ynddynt, gyda'r pwyslais ar bwysigrwydd y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon.

Mae'r drws ar agor o hyd o ran y DU a'r UE i ystyried cyfranogiad parhaol yn y rhaglenni hyn. Byddwn yn parhau i ddadlau'r achos y dylai'r DU ddarparu cyllid ac y dylai'r UE ddarparu'r hyblygrwydd i ganiatáu'r prosiectau cydweithredol pwysig hyn i barhau y tu hwnt i 2020.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 16. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei ymateb i'r adroddiad hwn pa drafodaethau y mae wedi eu cael ar berthynas Cymru â Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol ar ôl Brexit, a sut mae'r trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt.* - Tudalen 64

Ymateb : Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o berthynas barhaus rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau ac mae trafodaethau manwl eisoes wedi cael eu cynnal ynglŷn â ffurf y berthynas. Yn y cyfnod pontio, rydym wedi mynegi ein cefnogaeth i sefydlu Pwyllgor y Rhanbarthau-Comisiwn y DU ar y cyd, a fyddai - pe câi ei fabwysiadu gan Bwyllgor y Rhanbarthau - yn cynnwys deuddeg aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau a deuddeg o'r DU. Rydym hefyd wedi nodi y dylai fod cynrychiolaeth ddatganoledig gref yn nirprwyaeth y DU i'r cyd-gomisiwn a byddem yn disgwyl i'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig fod mewn sefyllfa i enwebu un cynrychiolydd i'r pwyllgor (yn amodol ar ddatblygiad y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon). Rydym hefyd yn cytuno â'r cynnig o fforwm gwleidyddol parhaol i Ogledd-orllewin Ewrop ar ôl y pontio a ddylai gynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 17. *Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r cyfleoedd i sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol yng Nghymru ymgysylltu'n effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau ar ôl Brexit.* - Tudalen 66

Ymateb : Derbyn

Fel yn achos Pwyllgor y Rhanbarthau, rydym yn cefnogi'r datblygiad o strwythurau ffurfiol rhwng y DU a sefydliadau'r UE ar ôl Brexit. Ar hyn o bryd mae'n anodd rhagweld yn union beth fydd y strwythurau hyn am nad yw ffurf y berthynas yn y dyfodol wedi'i diffinio eto ond ar sail profiad trydydd gwledydd eraill rydym yn rhagweld y byddai desgiau'r DU ar draws y Comisiwn wedi'u cydlynu gan y Gwasanaeth Materion Allanol Ewropeaidd; dirprwyaeth o ASE i'r DU a hefyd yn rhagweld y bydd y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol yn dymuno sefydlu perthynas â chyflogwyr, undebau llafur a'r gymdeithas sifil yn y DU. Pan fydd y trefniadau hyn yn eu lle, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r llwybrau posibl er mwyn galluogi ymgysylltu llywodraethol neu anllywodraethol gyda'r UE ar ôl Brexit.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol

Argymhelliad 18. *Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiogelu'r hawliau dynol a safonau cydraddoldeb y mae dinasyddion Cymru wedi elwa arnynt drwy fod yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. - Tudalen 66*

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na ddylai gadael yr UE arwain at wanhau amddiffyniadau hawliau dynol yn y DU - nac yn wir unrhyw amddiffyniadau cymdeithasol, amgylcheddol neu gyflogaeth eraill.

Yn *Diogelu Dyfodol Cymru*, a gyhoeddwyd flwyddyn yn ôl, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir: "Wrth ymadael â'r UE, rhaid i ni fod ar ein gwylidwriaeth a mynnu na ddylid erydu'r safonau a'r mesurau diogelu sydd mor fanteision i'n dinasyddion ac i les cymdeithas yn gyfan". Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r safbwynt hwn ac mae'n parhau i fod yn rhan annatod o'r hyn yr ydym wedi ei amlinellu i Lywodraeth y DU fel y safbwynt negodi yr ydym yn ei ffafrio.

Oherwydd hyn, rydym yn falch o weld bod y gwelliannau a wnaed i'r Bil Ymadael â'r UE gan Dŷ'r Arglwyddi yn sicrhau bod y Siarter Hawliau Sylfaenol yn parhau i gael effaith gyfreithiol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae'r Siarter yn darparu amddiffyniadau lle bynnag y bo rhywun o fewn cwrpas cyfraith yr UE.

Ein safbwynt cyson yw y dylai Bil y DU ei diogelu fel rhan o'r corff o gyfreithiau a fydd yn deillio o'r UE a fydd yn cael effaith ddomestig pan fyddwn yn ymadael.

Goblygiadau Ariannol

Dim: Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol